

POLISI PENSIYNAU

CYNNWYS:

- 1 RHAGARWEINIAD
- 2 CYFRANNU TUAG AT GYNLLUN PENSIWN YCHWANEGOL CPY
- 3 DARPARU PENSIWN YCHWANEGOL CPY AR GOST CYFAN
- 4 ANRHYDEDDU Y RHEOL 85 MLYNEDD RHWNG 55 A 60 OED
- 5 YMDDEOLIAD HYBLYG
- 6 ILDIO GOSTYNGIADAU ACTIWARAIDD
- 7 SYMUD O UN BAND CYFRANNU I'R LLALL

Mai 2014



POLISI PENSIYNAU

1. RHAGARWEINIAD

Mae'n ddyletswydd ar Gyfarwyddwyr Cynnal i gyhoeddi polisi ynghylch y ffordd y byddid yn ymdrin â gweithdrefnau pensiwn aelodau staff gan fanylu yn benodol ar bump prif bennawd megis:

- cyfrannu tuag at gynllun Pensiwn Ychwanegol CPY (unai drwy gyfraniad misol neu lwmp swm);
- darparu Pensiwn Ychwanegol CPY ar gost cyfan i'r cyflogwr;
- anrhydeddu y Rheol 85 mlynedd i'r aelodau fydd yn cymryd pensiwn yn wirfoddol rhwng oed 55 a 60;
- ymddeoliad hyblyg;
- ildio gostyngiadau actiwaraid.

Yn ogystal, rhaid ystyried pa weithdrefnau i'w dilyn pan fo aelod o staff yn symud o un band cyfrannu i'r llall yn ystod y flwyddyn ariannol.

Dylid nodi bod Cynnal wedi dewis mabwysiadu amodau gwaith staff Cyngor Sir Ynys Môn, ac os bydd newid i bolisiau neu weithdrefnau'r Cyngor ar unrhyw adeg, bydd Cynnal yn ail-ymweld ag unrhyw bolisiau cysylltiedig.

2. Cyfrannu tuag at gynllun Pensiwn Ychwanegol CPY (unai drwy gyfraniad misol neu lwmp swm)

Gall aelodau'r cynllun pensiwn ddwis prynu Pensiwn Ychwanegol hyd at £6,500 y flwyddyn (i'w adolygu yn flynyddol) trwy'r cynllun CPY/APC (Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol/Additional Pension Contributions). Mae'r pensiwn ychwanegol ar gyfer yr aelod yn unig ac mae'n seliedig ar oedran, rhyw a chyfnod talu – nid oes darpariaeth ar gyfer dibynyddion. Gellid talu amdano mewn un lwmp swm neu ar ffurf rhan-daliadau misol.

Gall cyflogwr ddewis cyfrannu tuag at gost y cynllun CPY.

Ni fydd Cynnal yn cyfrannu tuag at gost y cynllun CPY.

3. Darparu Pensiwn Ychwanegol CPY ar gost cyfan i'r cyflogwr

Gall aelodau'r cynllun pensiwn ddwis prynu Pensiwn Ychwanegol hyd at £6,500 y flwyddyn (i'w adolygu yn flynyddol) trwy'r cynllun CPY/APC (Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol/Additional Pension Contributions). Mae'r pensiwn ychwanegol ar gyfer yr aelod yn unig ac mae'n seliedig ar oedran, rhyw a chyfnod talu – nid oes darpariaeth ar gyfer dibynyddion. Gellid talu amdano mewn un lwmp swm neu ar ffurf rhan-daliadau misol.

Gall cyflogwr ddewis talu cost cyfan y cynllun CPY.

Ni fydd Cynnal yn talu cost cyfan y cynllun CPY.

4. Anrhydeddu y Rheol 85 mlynedd i'r aelodau fydd yn cymryd pensiwn yn wirfoddol rhwng oed 55 a 60

Mae gan aelodau cymwys warchodaeth dan y Rheol 85 mlynedd os yn ymddeol yn 60 oed neu hŷn – boed yn llawn neu ar raddfa symudol. Fodd bynnag, os yw aelod yn ymddeol rhwng 55 a 60 oed nid oes gwarchodaeth awtomatig dan y Rheol 85 mlynedd, ond gall y cyflogwr ddewis caniatáu hynny ar gost ychwanegol i'r cyflogwr.

Ni fydd Cynnal yn anrhydeddu y Rheol 85 mlynedd i'r aelodau fydd yn cymryd pensiwn yn wirfoddol rhwng 55 a 60 oed.

5. Ymddeoliad hyblyg

Gweler y polisi atodol.

6. Ildio gostyngiadau actiwaraid

O 1 Ebrill 2014 mae gan staff yr hawl i ymddeol o 55 oed heb ganiatad y cyflogwr, ond wrth ymddeol yn gynnar, cyn yr oed ymddeol arferol, bydd y pensiwn a'r lwmp swm yn cael eu gostwng oherwydd eu bod yn cael eu talu'n gynnar ac, o bosib, am gyfnod hirach. Bydd y gostyngiad actiwaraid yn cael ei weithredu fel canran o'r pensiwn a'r lwmp swm. Yr agosaf fydd yr aelod at ei (h)oed ymddeol arferol pan yn ymddeol, yna'r lleiaf fydd canran y gostyngiad.

Gall cyflogwr ddewis ildio'r gostyngiadau actiwaraid trwy dalu'r gwahaniaeth fel nad yw'r unigolyn ar ei golled.

Ni fydd Cynnal yn ildio'r gostyngiadau actiwaraid.



7. Symud o un band cyfrannu i'r llall yn ystod blwyddyn ariannol

Mae band cyfrannu unigolyn, sef y canran cyflog a delir gan yr aelod, yn seiliedig ar ei enillion. Yn anorfod, gall enillion unigolyn amrywio yn ystod y flwyddyn – hwyrach trwy leihau oriau gwaith, symud i swydd ar raddfa uwch, neu gyflawni gwaith gor-amser. Gall hyn arwain o bosibl i'r unigolyn ddisgyn i fand gwahanol i'r un a ddynodwyd iddo/iddi ar ddechrau'r flwyddyn ariannol yn ystod y broses asesu enillion pensiynadwy. Mae gan cyflogwyr yr opsiwn i addasu'r ganran yn ystod y flwyddyn os digwydd i'r enillion ostwng neu gynyddu i gael effaith ar y ganran cyfrannu, neu gellid gwneud cyfrifiad ac addasiad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Bydd Cynnal yn gweithredu ar unrhyw addasiadau yn ystod y flwyddyn yn ôl yr angen fel mae unrhyw achos yn codi.